Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw

Caneuon Ffydd: Rhif 55

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw,
sanctaidd yw yr Arglwydd hollalluog;
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw,
sanctaidd yw yr Arglwydd hollalluog,
'r hwn fu, ac sydd, ac eto i ddod,
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw.

Teilwng, teilwng, teilwng yw ein Duw,
teilwng yw yr Arglwydd hollalluog; . . .

Cyfiawn, cyfiawn, cyfiawn yw ein Duw,
cyfiawn yw yr Arglwydd hollalluog; . . .

Cariad, cariad, cariad yw ein Duw,
cariad yw yr Arglwydd hollalluog; . . .

Iesu, Iesu, Iesu yw ein Duw,
Iesu yw yr Arglwydd hollalluog; . . .

ANAD. *cyf.* ARFON JONES

MYFYRDOD

Fel cân o fawl mae'r emyn modern hwn yn un rhagorol. Mae'n tynnu cymaint o gyfeiriadaeth Feiblaidd ynghyd, gan roi darlun cryno inni o briodoleddau Duw. Mae'r Ysgrythur yn gyforiog o gyfeiriadau at sancteiddrwydd, teilyngdod, cyfiawnder a chariad Duw, ac mae hi'n fendith inni gael ein hatgoffa'n hunain a'n gilydd ar gân o'r hyn mae'r Ysgrythur yn ei fynegi mor aml.

Ond, nid yw'r priodoleddau hyn yn cael eu mynegi gyda'i gilydd yn fwy amlwg nag yng ngwaith Ioan, yr hwn oedd yn ddisgybl annwyl i Iesu ac a ysgrifennodd y bedwaredd Efengyl, yn apostol a anogodd eglwysi'r Testament Newydd gyda'i lythyrau, dau ohonynt wedi eu cadw ar ein cyfer heddiw, ac a oedd, yn olaf, hefyd yn Ioan y Difinydd, yr hwn a osododd ei weledigaethau rhyfeddol o Grist a'r nefoedd ei hun yn ei lyfr Datguddiad i'r eglwysi.

Wrth ganu'r emyn hwn, cawn ymuno yn addoliad y nef. Yr

ydym yn adleisio mawl y pedwar creadur byw sydd o flaen gorsedd Duw ac yn ddiorffwys yn eu mawl. Cynrychiolant y greadigaeth yn gyfan a'u prif waith yw cynnig mawl i Dduw. Sanct, Sanct, Sanct yw'r Arglwydd Dduw hollalluog, yr hwn oedd a'r hwn sydd a'r hwn sydd i ddod! yw eu cân yn wastad.

Erbyn yr ail bennill yr ydym gyda'r pedwar henuriad ar hugain, yn llyfr y Datguddiad eto, sef cynrychiolwyr nefol yr holl rai sydd wedi eu prynu trwy waed yr Oen. Maent wedi eu gogoneddu a'u coroni, a'r rhain hefyd yn moli'n ddibaid, gan ddatgan mai: '"Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a'n Duw, i dderbyn y gogoniant a'r anrhydedd a'r gallu"' (Dat. 4:11).

Beth sydd gan yr angylion i'w ddweud yng nghanol y mawl hwn i gyd? Cawn mai 'cyfiawn' yw cri 'angel y dyfroedd': '"Cyfiawn ydwyt, yr hwn sydd a'r hwn oedd, y sanctaidd Un"' (Dat. 16:5). Dyna hefyd gri y merthyron oddi ar allor yr Arglwydd (Dat. 16:7).

Cofiwn mai Ioan hefyd yn ei lythyr cyntaf a fynegodd inni'r adnod honno 'Cariad yw Duw' (1 Ioan 4:8). Mae cariad mor fawr â hwn yn ein gorfodi ninnau i garu ein gilydd. Dywedir mai un o hoff ddywediadau'r Ioan hwn oedd "Blant bychain, cerwch eich gilydd" a'r frawddeg honno'n bregeth ynddi ei hun wrth inni gydnabod ein bychander fel plant i Dduw, ac eto ei fod ef yn ein caru ninnau, a'r cariad hwnnw yn ein cymell ninnau i garu'n gilydd.

Sylweddolwn gyda'r disgyblion gynt mai 'Iesu yw ein Duw' erbyn diwedd yr emyn. Bu Ioan gyda Iesu, yn ddisgybl annwyl iddo, ac roedd ganddo ef, ynghyd â'r disgyblion eraill, bob rheswm i gredu ei fod yn fwy nag unrhyw berson arall yr oedden nhw wedi ei adnabod. Ufuddhâi y gwynt i'w orchymyn, iachawyd torfeydd o bobl ganddo, ac roedd yn gyrru cythreuliaid ar ffo gyda gair yn unig. Gallem fynd rhagom, ond fe welson nhw y cwbl. Thomas sy'n cyhoeddi'n sydyn wrth weld yr Iesu Atgyfodedig a sylweddoli pwy ydyw: "Fy Arglwydd a'm Duw!" (Ioan 20:28). Gwelodd ac fe gredodd. Erys y dystiolaeth i ninnau hefyd, y rhai na welodd. Ni wadodd Iesu osodiad Thomas, ac nis cywirodd ef, dim ond bendithio'r rhai a gredodd heb iddynt weld. Nid oes ond bendith yn ein haros ninnau wrth sylweddoli bod Iesu, 'yr Oen a laddwyd', yn deilwng o'n mawl.

GWEDDI

O Dad nefol, diolch iti am y fraint o gael ymuno yn addoliad y nef a gweld yno y mawl a roddir i ti ac i'r Oen. Cynorthwya ni trwy dy Ysbryd i ddod â'n mawl atat yn wastad oherwydd dy fod yn wastad i'th foliannu ''r hwn fu, ac sydd, ac eto i ddod'. Yn enw Iesu. Amen.